OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1700 (Cy.161)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Adolygu Achosion) (Cymru) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu gofynion am sut y mae'n rhaid i awdurdodau lleol adolygu achosion teuluoedd sy'n cael eu cefnogi gan dimau integredig cymorth i deuluoedd. Nid yw'r gofynion i'r awdurdod lleol adolygu achos yn gymwys o ran plentyn y mae ei achos eisoes yn ddarostyngedig i adolygiad o dan Reoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007 (O.S. 2007/307) ("y Rheoliadau Adolygu") yn rhinwedd eu bod "yn derbyn gofal" yn unol â'r diffiniad o "looked after" yn adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989.

Ar ben hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau Adolygu fel bod y gofynion i adolygu achosion plant sy'n derbyn gofal yn ystyried y rhan y mae timau integredig cymorth i deuluoedd wedi ei chwarae mewn nifer o ffyrdd penodedig.

Mae rheoliad 2 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol adolygu achosion teuluoedd y mae eu hachosion yn cael eu cefnogi gan dîm integredig cymorth i deuluoedd ond mae'n eithrio achosion plant sy'n derbyn gofal.

Mae rheoliad 3 yn nodi pryd y mae'n rhaid adolygu achos am y tro cyntaf a pha mor aml y mae'n rhaid cynnal adolygiadau wedyn. Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol nodi yn ysgrifenedig ei drefniadau i adolygu achosion ac mae'n ei gwneud yn ofynnol bod yr awdurdod lleol yn cyd-

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2010 No. 1700 (W.161)

SOCIAL CARE, WALES

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

The Integrated Family Support Teams (Review of Cases) (Wales) Regulations 2010

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations establish requirements about how local authorities must review the cases of the families who are supported by Integrated Family Support ("IFS") teams. The requirements for the local authority to review a case do not apply in relation to a child whose case is already subject to review under the Review of Children's Cases (Wales) Regulations 2007 (S.I. 2007/307) ("the Review Regulations") by virtue of being "looked after" as defined in section 22(1) of the Children Act 1989.

These Regulations also make amendments to the Review Regulations so that the requirements for the review of cases of looked after children take account of the involvement of IFS teams in a number of specified ways.

Regulation 2 requires a local authority to review the cases of families whose cases are supported by an IFS team but excepts cases of looked after children.

Regulation 3 sets out when a case must first be reviewed and at what intervals subsequent reviews must take place. Regulation 4 requires a local authority to set out in writing its arrangements for reviewing cases and requires that the local authority coordinates

drefnu'r adolygiad. Ymdrinnir â'r materion i ymdrin â hwy yn ar adolygiad yn Atodlen 1.

Mae rheoliad 5 ac Atodlen 2 yn nodi pob mater y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei ystyried wrth adolygu achosion. Mae rheoliad 6 yn nodi'r gofynion ynglŷn â phwy y mae'n rhaid ymgynghori cyn adolygiad, pwy y mae'n rhaid iddo gymryd rhan ynddo a phwy y dylid ei hysbysu wedyn.

Mae rheoliad 7 yn creu dyletswydd i awdurdod lleol weithredu'r penderfyniadau a gymerwyd mewn adolygiad. Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth a ddarperir ar gyfer adolygiad, ynghyd â chofnodion, ac unrhyw benderfyniadau gan adolygiad, yn cael eu cofnodi yn ysgrifenedig.

Mae rheoliad 9 yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau Adolygu i gynnwys gofyniad bod aelod o dîm integredig cymorth i deuluoedd yn cael ei gynnwys yn adolygiad achos plentyn sy'n derbyn gofal y mae achos ei deulu yn cael ei gefnogi gan dîm o'r fath. Mae hefyd yn diwygio'r Rheoliadau Adolygu fel bod y weithred o hysbysu bod achos wedi cael ei atgyfeirio i dîm integredig cymorth i deuluoedd yn sbardun i adolygu achos plentyn sy'n derbyn gofal. Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod Atodlen 4 yn y Rheoliadau Adolygu sy'n nodi materion ychwanegol sydd i'w cymryd i ystyriaeth mewn adolygiad o blentyn sy'n derbyn gofal y mae ei deulu yn cael ei gefnogi gan dîm integredig cymorth i deuluoedd.

the review. The matters to be dealt with in the review are dealt with in Schedule 1.

Regulation 5 and Schedule 2 set out all the matters which a local authority must take into account in reviewing cases. Regulation 6 sets out the requirements about who must be consulted before a review, who must participate in it and who should be notified afterwards.

Regulation 7 creates a duty for a local authority to implement the decisions taken at a review. Regulation 8 requires that information provided for a review, together with minutes, and any decisions of a review, are recorded in writing.

Regulation 9 makes amendments to the Review Regulations to include a requirement that a member of an IFS team is involved in the review of the case of a looked after child whose family's case is supported by such a team. It also amends the Review Regulations so that notification of referral of a case to an IFS team is a trigger for a review of the case of a looked after child. A schedule of additional matters to be taken into account in the case of a looked after child whose family is being supported by an IFS team is included to become Schedule 4 of the Review Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1700 (Cy.161)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Adolygu Achosion) (Cymru) 2010

Gwnaed	*24 Mehefin 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*29 Mehefin 2010*
Yn dod i rym	*1 Medi 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 63(a) a 74(2) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**) ac adrannau 26(1), (2), 104(4), 104A (1) a (2) o Ddeddf Plant 1989(**2**) yn gwneud y rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Adolygu Achosion) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 1 Medi 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "Mesur 2010" ("*the 2010 Measure*") yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;

ystyr "y Rheoliadau Adolygu" ("*Review Regulations*") yw Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007(**3**);

ystyr "teulu" ("*a family*") yw teulu y mae wedi ei atgyfeirio gan awdurdod lleol i'w dîm integredig cymorth i deuluoedd ac yr hysbyswyd ei aelodau y byddant yn cael eu cefnogi gan y tîm;

(**1**) 2010 mccc 1.

(**2**) 1989 p.41.

(**3**) O.S. 2007/307.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2010 No. 1700 (W.161)

SOCIAL CARE, WALES

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

The Integrated Family Support Teams (Review of Cases) (Wales) Regulations 2010

Made	*24 June 2010*
Laid before the National Assembly for Wales	*29 June 2010*
Coming into force	*1 September 2010*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 63(a) and 74(2) of the Children and Families (Wales) Measure 2010(**1**) and sections 26(1), (2), 104 (4), 104A (1) and (2) of the Children Act 1989(**2**) make the following regulations.

Citation, commencement, interpretation and application

1.–(1) The title of these Regulations is the Integrated Family Support Teams (Review of Cases) (Wales) Regulations 2010 and they come into force on 1 September 2010.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) In these Regulations–

"a family" ("*teulu*") means a family which has been referred by a local authority to its IFS team and whose members have been notified that they will be supported by the team;

"IFS team" ("*tîm integredig cymorth i deuluoedd*") means an integrated family support team established by a local authority with the participation of a local health board in accordance with s.57 of the 2010 Measure;

(**1**) 2010 nawm 1.

(**2**) 1989 c.41.

(**3**) S.I. 2007/307.

ystyr "tîm integredig cymorth i deuluoedd" ("*IFS team*") yw tîm integredig cymorth i deuluoedd a sefydlwyd gan awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol yn cymryd rhan yn ei sefydlu yn unol ag a.57 o Fesur 2010.

"the Review Regulations" ("*y rheoliadau Adolygu*") means the Review of Children's Cases (Wales) Regulations 2007(**3**);

"the 2010 Measure" ("*Mesur 2010*") means the Children and Families (Wales) Measure 2010.

Dyletswydd i adolygu achosion

2.–(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i awdurdod lleol adolygu achos pob teulu yn unol â'r Rheoliadau hyn tra bo'r teulu yn cael ei gefnogi gan ei dîm integredig cymorth i deuluoedd.

(2) Pan fo tîm integredig cymorth i deuluoedd yn cael ei sefydlu ar y cyd gan ragor nag un awdurdod lleol, yna mae'r ddyletswydd ym mharagraff (1) yn gymwys i'r awdurdod lleol lle y mae'r plentyn yn byw ac mae unrhyw drefniadau dros dro i'r plentyn fyw i ffwrdd i'w diystyried at y diben hwn.

(3) Nid yw'r ddyletswydd ym mharagraff (1) o'r rheoliad hwn yn gymwys o ran achos teulu pan fo un neu ragor o'r plant yn y teulu yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol neu'n cael ei letya neu eu lletya gan yr awdurdod lleol ac y mae achos y plentyn hwnnw (neu'r plant hynny) yn ddarostyngedig i adolygiad o dan Reoliadau Adolygu.

Duty to review cases

2.–(1) Subject to paragraph (2), a local authority must review the case of each family in accordance with these Regulations, for as long as the family is being supported by its IFS team.

(2) Where an IFS team is established jointly by more than one local authority, then the duty in paragraph (1) applies to the local authority in whose area the child lives and any temporary arrangements for the child to live away are to be disregarded for this purpose.

(3) The duty in paragraph (1) of this regulation does not apply in relation to the case of a family where one or more of the children in the family is being looked after or is being provided with accommodation by the local authority and that child's case is (or those children's cases are) subject to review under the Review of Regulations.

Pryd y mae pob achos i'w adolygu

3.–(1) Rhaid i bob achos gael ei adolygu am y tro cyntaf cyn pen pedair wythnos ar ôl y dyddiad pryd y caiff y teulu ei hysbysu y bydd ei achos yn cael ei gefnogi gan y tîm integredig cymorth i deuluoedd.

(2) Rhaid cynnal yr ail adolygiad cyn pen tri mis ar ôl yr adolygiad cyntaf ac ar ôl hynny rhaid cynnal adolygiadau dilynol cyn pen chwe mis ar ôl dyddiad yr adolygiad blaenorol.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn rhwystro awdurdod lleol rhag adolygu'r achos cyn pen yr amseroedd a bennir ym mharagraff (1) neu (2).

Time when each case is to be reviewed

3.–(1) Each case must first be reviewed within four weeks of the date on which the family are notified that their case will be supported by the IFS team.

(2) The second review must be carried out no more than three months after the first and thereafter subsequent reviews must be carried out no more than six months after the date of the previous review.

(3) Nothing in this regulation prevents a local authority from reviewing the case before the time specified in paragraph (1) or (2).

Sut y mae achosion i'w hadolygu

4.–(1) Rhaid i awdurdod lleol nodi yn ysgrifenedig sut y mae achos pob teulu i'w adolygu a rhaid iddo drefnu bod hyn ar gael i'r personau a bennir yn rheoliad 6(1).

(2) Rhaid i awdurdod lleol y mae ei dîm integredig cymorth i deuluoedd yn cefnogi teulu wneud trefniadau i gyd-drefnu gweithrediad pob agwedd ar yr adolygiad.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol benodi un o'i swyddogion i gyd-drefnu pob agwedd ar yr adolygiad.

(4) Rhaid i'r materion i ymdrin â hwy ym mhob adolygiad achos, i'r graddau y mae'n ymarferol, gynnwys yr elfennau a bennir yn Atodlen 1.

Manner in which cases are to be reviewed

4.–(1) A local authority must set out in writing how the case of each family is to be reviewed and must make this available to the persons specified in regulation 6(1).

(2) A local authority whose IFS team is supporting a family must make arrangements to co-ordinate the carrying out of all aspects of the review.

(3) The local authority must appoint one of its officers to coordinate all the aspects of the review.

(4) The matters to be dealt with in each review must, so far as practicable, include the elements specified in Schedule 1.

(5) Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn yn atal cynnal unrhyw adolygiad o dan y Rheoliadau hyn ac unrhyw adolygiad, asesiad neu ystyriaeth arall o dan unrhyw ddarpariaeth arall ar yr un pryd.

Ystyriaethau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol dalu sylw iddynt

5. Yr ystyriaethau y mae'n rhaid i awdurdod lleol, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, dalu sylw iddynt wrth adolygu pob achos yw'r ystyriaethau cyffredinol a bennir yn Atodlen 2.

Ymgynghori, cymryd rhan a hysbysu

6.–(1) Cyn cynnal unrhyw adolygiad, rhaid i awdurdod lleol, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol i wneud hynny, geisio barn ac ystyried barn–

(a) plant y teulu;

(b) y rhieni;

(c) unrhyw berson nad yw'n rhiant i'r plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhiant amdano;

(ch) aelodau'r tîm integredig cymorth i deuluoedd; a

(d) unrhyw berson arall y mae'r awdurdod yn ystyried bod ei farn yn berthnasol;

yn enwedig, o ran y materion sydd i ymdrin â hwy yn ystod yr adolygiad.

(2) Rhaid i awdurdod lleol, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, gynnwys y personau y ceisir eu barn o dan baragraff (1) yn yr adolygiad, a phan fo'r awdurdod yn ystyried bod hynny'n briodol, eu gwahodd i fod yn bresennol mewn rhan neu'r cyfan ohono.

(3) Rhaid i awdurdod lleol, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, wneud canlyniad yr adolygiad ac unrhyw benderfyniad a gymerwyd ganddo o ganlyniad i'r adolygiad yn hysbys i–

(a) plant y teulu;

(b) y rhieni;

(c) unrhyw berson nad yw'n rhiant i'r plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhiant amdano;

(ch) y tîm integredig cymorth i deuluoedd; ac

(d) unrhyw berson arall y mae'r awdurdod yn ystyried y dylai gael ei hysbysu.

Trefniadau i weithredu penderfyniadau sy'n codi o adolygiadau

7. Rhaid i awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i weithredu unrhyw benderfyniad y mae'n ei gymryd o ganlyniad i adolygiad, p'un ai drwy wneud trefniadau ei hun neu drwy wneud trefniadau â bwrdd iechyd lleol neu ag unrhyw berson arall.

(5) Nothing in these Regulations prevents the carrying out of any review under these Regulations and any other review, assessment or consideration under any other provision at the same time.

Considerations to which local authorities are to have regard

5. The considerations to which, so far as is reasonably practicable, a local authority are to have regard in reviewing each case are the general considerations specified in Schedule 2.

Consultation, participation and notification

6.–(1) Before conducting any review a local authority must, unless it is not reasonably practicable to do so, seek and take into account the views of–

(a) the children of the family;

(b) the parents;

(c) any person who is not a parent of the child but who has parental responsibility for him or her;

(d) members of the IFS team; and

(e) any other person whose views the authority consider to be relevant;

in particular in relation to the matters which are to be dealt with in the course of the review.

(2) A local authority must so far as is reasonably practicable involve the persons whose views are sought under paragraph (1) in the review and, where the authority consider appropriate, invite them to attend all or part of it.

(3) A local authority must, so far as is reasonably practicable, make known the outcome of the review and of any decision taken by it in consequence of the review to–

(a) the children of the family;

(b) the parents;

(c) any person who is not a parent of the child but who has parental responsibility for him or her;

(d) the IFS team; and

(e) any other person whom the authority considers ought to be notified.

Arrangements for implementation of decisions arising from reviews

7. A local authority must take all reasonable steps to implement any decision which it takes in consequence of a review, whether by making arrangements itself or by making arrangements with a local health board or with any other person.

Cofnodi gwybodaeth adolygiad

8. Rhaid i awdurdod lleol gadw cofnod ysgrifenedig o–

(a) gwybodaeth a geir at ddibenion adolygiad;

(b) unrhyw gyfarfod a drefnir gan yr awdurdod o flaen neu o ganlyniad i unrhyw agwedd ar adolygiad yr achos hwnnw; ac

(c) manylion canlyniad yr adolygiad ac unrhyw benderfyniadau a wneir gan yr awdurdod o ganlyniad i'r adolygiad.

Recording review information

8. A local authority must make a written record of–

(a) information obtained for the purposes of a review;

(b) any meeting arranged by the authority in anticipation or in consequence of any aspect of the review of that case; and

(c) details of the outcome of the review and any decisions made by the authority in consequence of the review.

Diwygio Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007

9.–(1) Ym mharagraff (2) o reoliad 1 o'r Rheoliadau Adolygu (Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso) mewnosoder y diffiniad a ganlyn –

"ystyr "tîm integredig cymorth i deuluoedd" ("*IFS team*") yw tîm integredig cymorth i deuluoedd a sefydlwyd gan awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol yn cymryd rhan yn ei sefydlu yn unol ag adran 57 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;".

(2) Yn rheoliad 4 o'r Rheoliadau Adolygu (Amser pan fo'n rhaid adolygu pob achos), ym mharagraff (3) dileer y geiriau "swyddog adolygu annibynnol yn cyfarwyddo hynny" a mewnosoder yr is-baragraffau a ganlyn–

"(a) swyddog adolygu annibynnol yn cyfarwyddo hynny, neu,

(b) os yw'r plentyn wedi ei gynnwys mewn grŵp teulu y mae ei achos wedi ei atgyfeirio at dîm integredig cymorth i deuluoedd ac os yw'r teulu wedi ei hysbysu y bydd ei achos yn cael ei gefnogi gan y tîm."

(3) (a) Ar ôl rheoliad 6 o'r Rheoliadau Adolygu mewnosoder y rheoliad a ganlyn–

"Ystyriaethau ychwanegol y mae awdurdodau cyfrifol i roi sylw iddynt pan fo tîm integredig cymorth i deuluoedd yn ymgysylltu

6A Yr ystyriaethau a bennir yn Atodlen 4 yw'r ystyriaethau ychwanegol y mae awdurdodau cyfrifol i roi sylw iddynt wrth adolygu achos plentyn sy'n rhan o deulu a gefnogir gan dîm integredig cymorth i deuluoedd."

(b) Bydd gan Atodlen 3 (sy'n mewnosod Atodlen 4 newydd yn y Rheoliadau Adolygu) yn effeithiol.

(4) Yn rheoliad 8 o'r Rheoliadau Adolygu (Ymgynghori, cymryd rhan a hysbysu), ym mharagraff (1), ar ddiwedd is-baragraff (ch) dileer y gair "a" ac ychwaneger yr is-baragraff a ganlyn–

Amendments to the Review of Children's Cases (Wales) Regulations 2007

9.–(1) In paragraph (2) of regulation 1 of the Review regulations (Title, commencement, interpretation and application) insert the following definition–

"IFS team" ("*tîm integredig cymorth i deuluoedd*") means an integrated family support team established by a local authority with the participation of a local health board in accordance with section 57 of the Children and Families (Wales) Measure 2010;".

(2) In regulation 4 of the Review Regulations (Time when each case is to be reviewed), in paragraph (3) delete the words "the independent reviewing officer so directs" and insert the following subparagraphs–

"(a) the independent reviewing officer so directs, or,

(b) the child is included within a family whose case has been referred to an IFS team and the family has been notified their case will be supported by the team."

(3) (a) After regulation 6 of the Review regulations, insert the following regulation–

"Additional considerations to which responsible authorities are to have regard where IFS team involved

6A. The additional considerations to which responsible authorities are to have regard in reviewing the case of a child who is part of a family which is being supported by an IFS team are the considerations specified in Schedule 4."

(b) Schedule 3 (which inserts a new Schedule 4 into the Review regulations) shall have effect.

(4) In regulation 8 of the Review regulations (Consultation, notification and participation), in paragraph (1), at the end of subparagraph (d) delete the word "and" and add the following subparagraph–

"(chch) yn achos plentyn y mae ei deulu yn cael ei gefnogi gan dîm integredig cymorth i deuluoedd, aelod o'r tîm hwnnw; a".

(5) Yn rheoliad 8 o'r Rheoliadau Adolygu, ym mharagraff (3), ar ddiwedd is-baragraff (ch), dileer y gair "a" ac ychwaneger yr is-baragraff a ganlyn–

"(chch) yn achos plentyn y mae ei deulu yn cael ei gefnogi gan dîm integredig cymorth i deuluoedd, aelod o'r tîm hwnnw; a".

"(dd) in the case of a child whose family is being supported by an IFS team, a member of that team; and".

(5) In regulation 8 of the Review regulations, in paragraph (3), at the end of subparagraph (d), delete the word "and" and add the following subparagraph –

"(dd) in the case of a child whose family is being supported by an IFS team, a member of that team; and".

Gwenda Thomas

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

24 Mehefin 2010

Deputy Minister for Social Services under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

24 June 2010

ATODLEN 1

Rheoliad 4(4)

Materion i ymdrin â hwy mewn adolygiad achos

1. Unrhyw newid yn amgylchiadau unrhyw blant neu oedolion yn y teulu.

2. Effeithiolrwydd y cynllun i fynd i'r afael ag anghenion y plentyn, boed mewn perthynas ag anghenion iechyd, neu anghenion cymdeithasol, emosiynol neu ymddygiadol.

3. Effeithiolrwydd cynlluniau i fynd i'r afael ag anghenion oedolion, boed mewn perthynas ag anghenion iechyd neu anghenion gofal cymdeithasol.

4. Barn yr oedolion a'r plant yn y teulu.

5. P'un a ddylid addasu'r cynlluniau ar gyfer y plentyn (y plant) neu'r oedolyn (oedolion) i gefnogi ei gilydd yn well.

SCHEDULE 1

Regulation 4(4)

Matters to be dealt with in case review

1. Any change of circumstances of any children or adults in the family.

2. The effectiveness of the plan to address the needs of the child, whether in relation to health needs or social, emotional or behavioural needs.

3. The effectiveness of plans to address the needs of adults whether in relation to health needs or social care needs.

4. The views of the adults and children in the family.

5. Whether the plans for the child(ren) or adult(s) should be adapted to better support each other.

ATODLEN 2

Rheoliad 5

Ystyriaethau y mae awdurdodau lleol i roi sylw iddynt

RHAN 1

Y plentyn

1. Unrhyw newid yn statws cyfreithiol y plentyn.

2. Unrhyw risgiau i'r plentyn.

3. P'un a yw'r trefniadau presennol ar gyfer gofal y plentyn yn foddhaol ai peidio.

4. Cynnydd datblygol y plentyn a p'un a oes angen i'r plentyn fod yn destun unrhyw asesiad pellach mewn perthynas ag anghenion iechyd, neu anghenion cymdeithasol, emosiynol, ymddygiadol neu addysgol.

RHAN 2

Y teulu

5. Unrhyw newidiadau yn amgylchiadau'r teulu ers yr adolygiad diwethaf.

6. Unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol y tu allan i'r teulu sy'n berthnasol gan gynnwys rhoi camau gweithredu ar waith o adolygiadau blaenorol.

SCHEDULE 2

Regulation 5

Considerations to which local authorities are to have regard

PART 1

The child

1. Any change in the legal status of the child.

2. Any risks to the child.

3. Whether the current arrangements for the care of the child are satisfactory.

4. The child's developmental progress and whether there is a need for the child to be the subject of any further assessment in relation to health, social, emotional, behavioural or educational needs.

PART 2

Family

5. Any changes in the family circumstances since the last review.

6. Any significant events outside the family which are relevant including the implementation of actions from previous reviews.

7. Unrhyw newid yng ngallu'r rhieni i gyflawni rôl rhieni o ganlyniad i wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol a ddarparwyd neu o ganlyniad i ffactorau eraill.

8. Unrhyw anawsterau a brofodd y teulu o bosibl wrth ymwneud â'r tîm integredig cymorth i deuluoedd.

9. P'un a oes unrhyw wrthdaro rhwng anghenion y plentyn ac anghenion yr oedolion a sut y gellir ei ddatrys.

10. Yr angen i baratoi am ddod ag ymgysylltiad y tîm integredig cymorth i deuluoedd i ben.

ATODLEN 3

Rheoliad 9(3)(b)

Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007

Mewnosoder y canlynol yn y Rheoliadau Adolygu ar ôl Atodlen 3 –

"

ATODLEN 4

Rheoliad 6A

Ystyriaethau ychwanegol y mae awdurdodau lleol i roi sylw iddynt pan fo tîm integredig cymorth i deuluoedd yn ymgysylltu

1. Cynllun gofal neu gynllun triniaeth iechyd y rhiant neu rieni.

2. Unrhyw newidiadau yn amgylchiadau'r teulu ers yr adolygiad diwethaf.

3. Unrhyw newid yng ngallu'r rhieni i gyflawni rôl rhieni o ganlyniad i wasanaethau iechyd neu wasanaethau gofal cymdeithasol a ddarparwyd neu o ganlyniad i ffactorau eraill.

4. Unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol y tu allan i'r teulu sy'n berthnasol.

5. Unrhyw anawsterau a brofodd y teulu o bosibl wrth ymwneud â'r tîm integredig cymorth i deuluoedd.

6. P'un a oes unrhyw wrthdaro rhwng anghenion y plentyn ac anghenion yr oedolion a sut y gellir ei ddatrys.

7. Yr angen i baratoi am ddod ag ymgysylltiad y tîm integredig cymorth i deuluoedd i ben."

©Ⓟ Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

7. Any change to the parenting capacity of the parents as a result of health or social care services provided or as a result of other factors.

8. Any difficulties which the family may have had in engaging with the IFS team.

9. Whether there is any conflict between the needs of the child and the needs of the adults and how this can be resolved.

10 The need to prepare for the ending of the involvement of the IFS team.

SCHEDULE 3

Regulation 9(3)(b)

Review of Children's Cases (Wales) Regulations 2007

The following Schedule is inserted into the Review regulations after Schedule 3–

"

SCHEDULE 4

Regulation 6A

Additional considerations to which local authorities are to have regard where IFS team involved

1.The care plan or health treatment plan of the parent or parents.

2. Any changes in the family circumstances since the last review.

3. Any change to the parenting capacity of the parents as a result of health or social care services provided or as a result of other factors.

4. Any significant events outside the family which are relevant.

5. Any difficulties which the family may have had in engaging with the IFS team.

6. Whether there is any conflict between the needs of the child and the needs of the adults and how this can be resolved.

7. The need to prepare for the ending of the involvement of the IFS team."

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2010 Rhif 1700 (Cy.161)

2010 No. 1700 (W.161)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

SOCIAL CARE, WALES

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Adolygu Achosion) (Cymru) 2010

The Integrated Family Support Teams (Review of Cases) (Wales) Regulations 2010

£5.75

W714/07/10 ON